# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

## 1. Croeso

Helo a chroeso! Fy enw i ydi Sioned Edwards, a fi fydd eich tywysydd chi, gan archwilio'r llwybrau gafodd eu creu gan gymunedau mwyngloddio a ffermio fel rhan o'u bywydau bob dydd. Fe fyddwn ni'n dod o hyd i sawl pentrefan hanesyddol, bywyd gwyllt amrywiol ac yn mwynhau golygfeydd panoramig. Mae'r llwybr yn cael ei gyflwyno gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae Comin Mynydd Helygain yn un o diroedd comin mwyaf Cymru. Roedd unwaith yn fwrlwm o ddiwydiant mwyngloddio ac mae wedi cael ei ailsiapio gan weithgarwch dynol dros ganrifoedd, gyda mwyngloddio plwm yn dyddio'n ôl i gyfnod y Rhufeiniaid. Mae ei gynefinoedd unigryw o laswelltir, rhostir a phrysgdir bellach yn darparu bwyd a chysgod ar gyfer amrywiaeth rhyfeddol o fywyd gwyllt. Mae'r Comin yn berl yn y dirwedd sydd â sawl dynodiad, gan gynnwys; Ardal Cadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

Cyn i ni ddechrau, dyma ychydig o awgrymiadau cyflym: rydyn ni'n argymell esgidiau cerdded cryf, oherwydd fe all y dirwedd fod yn anwastad ac yn gorsiog mewn mannau. Mae croeso i chi grwydro tir mynediad agored y Comin, er hynny, gwnewch eich gorau i aros ar y llwybrau clir, gan gymryd gofal ger hen weithfeydd mwyngloddio. Cadwch gŵn dan reolaeth i warchod adar sy'n nythu ar y ddaear a da byw sy'n pori.

*Mae cyfarwyddiadau'n cael eu darparu ar ddiwedd pob trac i'ch arwain chi i'r lleoliad ble gallwch chi wrando ar ran nesaf y llwybr sain. Mae croeso i chi roi saib ar y sain ar unrhyw adeg i weld y golygfeydd, felly beth am i ni ddechrau...*

*Gyda'r ffordd y tu ôl i chi, dilynwch y llwybr glaswellt gan ddal i'r chwith. Dilynwch y llwybr glaswellt o dan y llinellau pŵer, cyn cyrraedd y bythynnod o'ch blaen. Chwaraewch glip sain 2.*

# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

## 2. Tirwedd fyw

Mae glaswelltiroedd lled-naturiol yr iseldir yn gynefin hanfodol i blanhigion, pryfed, ymlusgiaid ac adar. Mae'r Comin yn cynnwys glaswelltiroedd calaminaraidd helaeth a chalchaidd gwasgaredig.

Yn anhygoel, mae bron i 80% o laswelltiroedd calaminaraidd Cymru i'w gweld yma, wedi'u creu gan hen domenni mwyngloddio lle roedd plwm a sinc yn cael eu cloddio ar un adeg. Dim ond y planhigion gwytnaf, sy'n gallu goddef metelau trwm, fel peiswellt y defaid, sy'n gallu ffynnu yn yr ardaloedd yma.

Mae'n parhau i gael ei reoli drwy ddulliau traddodiadol, gyda da byw yn crwydro'n rhydd i bori. Mae'r bobl sy'n gofalu am y tir, sef y porwyr, yn defnyddio arferion hirsefydlog i reoli'r eithin a'r rhedyn, gan greu cymysgedd o laswellt byr, planhigion talach a llwyni gwasgaredig, perffaith ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear fel yr ehedydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn treialu technegau newydd i ailsefydlu ardaloedd o domenni sydd wedi gordyfu. Mae llystyfiant arwyneb yn cael ei grafu oddi ar yr arwyneb yn ofalus i ddatgelu'r pridd oddi tanodd, gan anadlu bywyd newydd i'r cynefin calaminaraidd prin. Mae trigolion lleol Grŵp Cadwraeth Mynydd Helygain yn cadw llygad barcud ar yr ymdrechion yma.

Mae'r glaswelltiroedd calchaidd i'w cael ar bridd sych, llawn calsiwm, sy'n brin o faethynnau sy'n deillio o galchfaen. Maen nhw'n un o'r cynefinoedd mwyaf cyfoethog o ran planhigion yn y DU gyda glaswelltau, hesg, perlysiau, mwsoglau, cwpanllysiau a chennau. Er hynny, maen nhw dan fygythiad oherwydd rhywogaeth o blanhigyn estron ymledol; creigafal. Mae'n trechu ac yn tagu ein rhywogaethau brodorol ni, gan gael effaith ddinistriol ar y planhigion sy'n dibynnu ar y cynefin prin yma. Mae'r gwanwyn a'r haf yn dod â ffrwydrad o liw gyda blodau tegeirianau cain, blodau melyn y cor-rosyn cyffredin, ac mae blodau pinc i borffor persawrus y teim gwyllt yn ffynonellau neithdar hanfodol i gacwn.

Mae'r cynefinoedd llaith, glaswelltog yn gartref i bryfed a glöynnod byw hanfodol, gan gynnwys y fritheg berlog fach, sy'n oren ei lliw gyda marciau du nodedig ar ei hadenydd blaen, a 'pherlau' gwyn ar yr adain isaf. Mae'r glöyn byw yma'n ffurfio poblogaethau unigol ac mae ganddo gadarnle mewn sawl ardal yn yr Alban a Chymru. Er hynny, mae ei niferoedd yn dirywio oherwydd ei fod yn colli ei gynefin. Mae'r lindysyn yn bwydo ar fioledau cyffredin sydd i'w cael mewn dryslwyni o redyn. Fel oedolion maen nhw'n hedfan yn isel at y ddaear i chwilio am neithdar cyfoethog o flodau'r mieri, grug ac ysgall. Os gwelwch chi un, cofiwch gyflwyno eich lluniau i Cofnod!

# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

*Wrth i chi gyrraedd y bythynnod, trowch i'r chwith i'r lôn darmac un trac i gyrraedd y brif ffordd. Trowch i'r dde i fynd heibio i arosfan bws a blwch postio. Trowch i'r dde i lawr yr ail droad ar hyd y trac graean ychydig cyn yr arwyddion ffordd 40mya. Pan mae'r trac yn fforchio, cadwch i'r dde ac wedyn ewch yn syth i'r chwith ar hyd y llwybr glaswellt i gyrraedd cyffordd groes o laswellt. Trowch i'r dde i lawr yr ail droad a dilynwch y llwybr gan ddringo i fyny'r allt i weld golygfa banoramig hyfryd o'r dirwedd o amgylch ar gopa Moel y Gaer. Yma fe allwch chi chwarae clip sain 3.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

## 3. Y Gaer arswydus

O gopa Moel y Gaer, Rhosesmor, fe allwch chi weld golygfeydd godidog. I'r gorllewin mae bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, a Thŵr y Jiwbilî ar Foel Famau yw'r copa uchaf. I'r dwyrain mae Aber Afon Dyfrdwy, gan ffurfio cynefin morol o bwysigrwydd rhyngwladol.

Moel y Gaer yw un o'r bryngeyrydd o'r Oes Haearn sydd wedi'u hastudio fwyaf yng Ngogledd Cymru. Cyn sefydlu cronfa ddŵr fawr, fe ddatgelodd gwaith cloddio yn y 1970au lawer o drysorau hanesyddol. Mae'r arwyddion cynharaf o fodau dynol yma yn dyddio o'r cyfnod Neolithig tua 3500CC, pan oedd yn cael ei ddefnyddio fel canolfan hela achlysurol. Fe ddaeth archaeolegwyr o hyd i gelfi fflint a chornfaen yma, gan gynnwys cyllyll, crafwyr a phennau saethau, yn ogystal â darnau o grochenwaith.

Fe adeiladodd aneddiadau o'r Oes Efydd grugiau neu dwmpathau claddu ar y copa, gan greu gwersyll gyda thai crwn pren wedi'u hamddiffyn gan stocâd pren. Yn ddiweddarach yn ystod yr Oes Haearn, adeiladwyd rhagfur ffrâm bren 10 troedfedd o uchder, yn amgylchynu adeiladau hirsgwar llai. Yn y diwedd, gadawyd y gaer tua adeg goresgyniad y Rhufeiniaid yn y ganrif 1af OC.

Yn A Tour in Wales gan Thomas Pennant, a argraffwyd yn 1784, ysgrifennodd y naturiaethwr o Gymru am Foel y Gaer gan ddisgrifio ei safle strategol, ei gynllun amddiffynnol, a thwmpath a ddefnyddiwyd o bosibl gan ein harwyr hynafol ni i draddodi eu hareithiau ymgyrchu. Mae'n debyg bod y fryngaer yma'n ffurfio cadwyn o geyrydd ar hyd bryniau Clwyd, gan lwythau Celtaidd o'r enw'r Ordofigiaid i amddiffyn rhag goresgynwyr Rhufeinig. Ysgrifennodd hefyd am wrthryfel y Cymry yn erbyn y Saeson o dan arweiniad Owain Glyndŵr. Yn 1406, fe fu'r llecyn yma'n angheuol i Hywel Gwynedd, cefnogwr dewr i fudiad y gwrthryfelwyr. Yn rhinwedd y swydd yma, fe gafodd ei synnu mewn awr esgeulus a'i ddienyddio gan ei elynion o'r Fflint.

Yng nghanol Rhyfeloedd Napoleon ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, byddai'r gaer arswydus yma'n cael ei defnyddio unwaith eto. Fe adeiladwyd dwy ffagl dân bren yn y fryngaer, gan ffurfio rhan hanfodol o rwydwaith cyfathrebu oedd yn ymestyn ar draws arfordir gogledd Cymru, yn rhybuddio am fygythiadau Ffrainc.

*Dilynwch eich camau yn ôl i'r gyffordd laswellt a chymryd yr ail droad i'r dde i lawr yr allt. Dilynwch y llwybr glaswellt drwy'r giât, gan fynd heibio i nifer o dai ar y dde i chi.*

*Cyn cyrraedd yr eglwys, trowch yn sydyn i'r dde a chymerwch ofal wrth ddilyn y ffordd drwy'r giât grid gwartheg. Ar y dde i chi fe welwch chi strwythur carreg a mainc, chwaraewch glip sain 4 yma.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

## 4. Gwaddol Calch

Mae odyn galch Rhosesmor, a adeiladwyd yn y 1800au, yn strwythur carreg un ffliw sydd mewn cyflwr da o hyd. Mae odynau calch i'w gweld ar draws y Comin ac maen nhw’n strwythurau rhestredig gradd 2. Roedden nhw’n arfer chwarae rhan hanfodol ym mywyd o ddydd i ddydd y prosesau calchfaen. Fe gwblhawyd gwaith adfer gofalus i’w gwarchod nhw, er mwyn i genedlaethau’r dyfodol eu mwynhau, gan gynnig cipolwg ar orffennol diwydiannol yr ardal.

Mae'r odyn ei hun wedi cael ei gwneud gan ddefnyddio calchfaen lleol, gyda brics tân caletach wedi cael eu defnyddio y tu mewn i wrthsefyll y gwres eithafol. O edrych yn fanylach, efallai y gwelwch chi ffosilau wedi caledu yn y garreg! Wedi'i lleoli'n agos at y chwarel ac wedi'i gosod yn y llethrau, byddai’r gweithwyr yn llwytho'r odyn o'r top gyda haenau o lo a chalchfaen. Wedyn byddai priciau tân yn cael eu tanio o'r gwaelod i gynhesu'r odyn i dymheredd o 1000°C.

Roedd y calch powdrog oedd yn deillio o’r broses yma’n cael ei dynnu'n ofalus o'r gwaelod a'i lwytho ar wagenni i gynhyrchu calch brwd. Roedd y deunydd hanfodol yma’n cael ei ddefnyddio mewn amaethyddiaeth ac adeiladu fel gwrtaith, morter, ac i wyngalchu bythynnod, gan greu’r ymddangosiad disglair, glân a nodedig hwnnw sydd mor nodweddiadol o gefn gwlad Cymru.

Roedd rhai chwareli ac odynau calchfaen yn cynhyrchu calch hydrolig. Mae gan hwn nodwedd unigryw o setio o dan ddŵr, gan ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer adeiladu dociau. Ac fe'i defnyddiwyd i adeiladu dociau Lerpwl a Phenbedw ar ddiwedd y 19eg ganrif. Yn y diwedd, daeth llosgi calch i ben tua 1914. Heddiw, mae’r adfail tawel yma’n sefyll yn dyst i waith caled a dyfeisgarwch cenedlaethau’r gorffennol.

Fe adeiladwyd eglwys Fictoraidd hwyr Sant Paul yn Rhosesmor, gyda’i ffenestri lliw symudliw, gan ddefnyddio calchfaen lleol hefyd, ar gyfer y pentrefwyr oedd yn gweithio yn y diwydiant mwyngloddio plwm a oedd yn tyfu’n gyflym iawn. Bellach mae’n gartref i siop allgymorth y pentref a’r ystafell de.

*Ewch yn eich blaen heibio i'r odyn galch a chymryd y troad cyntaf i'r dde ar ôl adeilad y fferm. Mae eich stop nesaf chi wrth ymyl y gilfan gyntaf ar y dde i chi ar hyd y llwybr graean yma. Gan roi sylw gofalus i’r ffordd, chwaraewch glip sain 5 yma.*

# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

## 5. Cerfluniwyd gan ddaeareg

Allwch chi weld yr haenau o greigiau noeth? Gweddillion y gweithfeydd chwarel segur sy'n arddangos darn o hanes daearegol y rhanbarth, stori sy'n ymestyn yn ôl filiynau o flynyddoedd.

Mae Comin Mynydd Helygain wedi cael ei ffurfio gan ei ddaeareg waddodol waelodol, y llwyfandir hirgul o galchfaen Carbonifferaidd gydag allgreigiau o welyau cornfaen wedi'u gorchuddio gan ro melinfaen a siâl. Mae uwchben y ddaear wedi'i siapio gan brosesau erydiad a hindreuliad, mwyngloddio a phori gan dda byw.

Calchfaen yw'r creigiau yn bennaf, wedi'u ffurfio yn ystod y cyfnod Carbonifferaidd tua 340 miliwn o flynyddoedd yn ôl yn y môr trofannol bas, i'r de o'r cyhydedd. Dros amser, fe ymgasglodd gweddillion organebau morol, fel cwrelau a physgod cregyn, ar wely'r môr, gan gywasgu a smentio'n galchfaen yn y pen draw. Ffosilau hynafol wedi'u caledu yn y creigiau, yn perthyn i Fraciopodau, pysgod cregyn morol cynnar. A Chrinoidau, sy'n perthyn i sêr môr ac sy'n cael eu hadnabod yn gyffredin fel lili'r môr, sy'n debyg i blanhigyn neu flodyn pan mae wedi'i ffosileiddio.

Dros amser, mae grymoedd daearegol, gan gynnwys symudiadau tectonig, wedi siapio a dyrchafu'r rhanbarth yma, gan amlygu'r calchfaen i'r elfennau. Ers hynny mae erydiad gan y gwynt, y glaw a'r rhew wedi cerflunio'r dirwedd i fod yr hyn welwch chi heddiw, gyda'i bryniau tonnog a'i hallgreigiau.

*Ewch yn eich blaen yn syth ar hyd y trac graean, gan fynd heibio i nifer o dai ar y chwith. Wrth i'r trac ddod i ben wrth ymyl Bryn-Tirion, ymunwch â'r llwybr glaswellt o'ch blaen rhwng y ddau bolyn telegraff. Yma, chwaraewch eich clip sain nesaf, sef rhif 6.*

# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

## 6. Coblynnod neu mwyngloddwyr y tylwyth teg

Roedd gwaith mwyngloddiwr yn Helygain yn yr oes a fu yn llawn perygl, a phur anaml oedd iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried. Felly, roedden nhw'n chwilio am unrhyw beth fyddai'n eu cadw nhw'n ddiogel o dan y ddaear, boed yn grefydd, yn ofergoeliaeth neu'n gred yn y goruwchnaturiol.

Un gred oedd bod ysbrydion neu dylwyth teg yn byw yn y mwyngloddiau, gyda'u tai o dan y ddaear yn rhannau dyfnaf a thywyllaf mwyngloddiau'r pwll. Y gred yn eang oedd bod y bobl yma oedd yn debyg i gorachod yn byw mewn mwyngloddiau ledled y byd, yn enwedig yng ngogledd Ewrop. Yn yr Almaen roedden nhw'n cael eu galw yn 'Kobolds' (sef o ble cawn ni'r enw Coblyn). Yn Lloegr roedden nhw'n cael eu hadnabod fel 'Knockers,' ac yng Nghymru fel y 'Coblynnod', ac roedden nhw'n gwarchod yr adnoddau naturiol a'r trysorau oedd yn cael eu cadw o dan arwyneb y Ddaear.

Roedd y coblynnod a'r ellyll tanddaearol yma i gyd yn edrych yn debyg iawn. Roedden nhw rhwng 18 modfedd a 3 troedfedd o daldra, a braidd yn hyll fel rheol gyda thrwynau mawr a chrychau. Wrth gwrs, roedd gan bob un farf hir y byddent yn ei glymu wrth greigiau rhag ofn iddyn nhw ddisgyn i lawr siafftiau dwfn.

Yn aml, fe fydden nhw'n gwisgo dillad tebyg i rai mwyngloddwyr dynol, a chôt goch i gadw oerfel y gaeaf allan. Fel rheol roedden nhw'n gweithio eu gwythiennau eu hunain o dan y ddaear a byddai ganddyn nhw gaib a rhaw i'w defnyddio i gloddio. Yn ôl y sôn, wrth weithio o dan y ddaear, fe allech chi synhwyro presenoldeb y Coblynnod yn aml, ac roedden nhw i'w clywed yn gweithio neu'n 'curo' mewn twneli pell. Fe allai'r bobl fach yma fod yn ddefnyddiol neu'n drafferthus i fwyngloddwyr dynol pe baen nhw'n eu hypsetio, ac roedd rheolau llym ar gyfer sut i'w trin:

Wrth fynd i mewn i'r mwynglawdd, dylai mwyngloddiwr godi ei het a'u cyfarch yn barchus. Ni ddylech regi na chwibanu o dan y ddaear byth. Fe fyddai hynny'n sicr o'u tramgwyddo nhw. A gadewch anrheg bob amser i'r Coblynnod, ychydig o fwyd efallai neu damaid o gannwyll.

Pe bai mwyngloddiwr yn ennill eu ffafr, efallai y byddai hynny'n ei arwain at y safle lle roedd posib dod o hyd i'r wythïen neu'r haen orau. Ac os oedden nhw'n eich hoffi chi, fe fydden nhw'n rhybuddio am beryglon a damweiniau fel twnnel yn cwympo neu nwyon tanddaearol drwy guro'n uchel deirgwaith.

Ond y rhan fwyaf o'r amser, dim ond drwg oedden nhw. Roedden nhw'n dwyn canhwyllau, yn cuddio dillad a chelfi, ac yn chwarae triciau.

Mae Mynydd Helygain yn frith o siafftiau mwyngloddio wedi'u capio, ac rydyn ni'n eich cynghori chi i droedio'n ofalus wrth archwilio'r ardal. Gwnewch amser i wrando, a phwy a ŵyr, efallai y byddwch chi'n clywed y Coblynnod yn curo, curo yn y twneli dwfn o dan y ddaear.

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

*Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr glaswellt tuag at y tŷ ar wahân sy'n lliw hufen. Mae'r ardal yma'n gallu bod yn gorsiog, os felly, dilynwch lwybr dargyfeirio ar y dde. Trowch i'r chwith wrth y gyffordd laswellt i lawr yr allt. Wedyn cymryd y troad cyntaf ar y dde tuag at y ffordd y gallwch chi ei gweld yn codi dros ael y bryn.*

*Peidiwch ag ymuno â'r ffordd darmac. Yn lle hynny, ewch i'r dde o flaen yr arwydd ffordd chevron ac ar hyd y trac graean. Pan fydd y llwybr graean yn gwyro i'r dde, ewch yn eich blaen ar y llwybr glaswellt i gyrraedd y stop nesaf gyda'r pwll mawr ar y chwith i chi. Chwaraewch glip sain 7.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

## 7. Drysfa Danddaearol

Wrth edrych allan dros y comin, mae'n anodd dychmygu'r byd prysur o dan y ddaear. Isod mae drysfa o dwneli a siafftiau yn ymestyn dros 60 milltir, a oedd unwaith yn gyforiog o weithgarwch ac sy'n dyst i dreftadaeth ddiwydiannol Mynydd Helygain ac un o fwyngloddiau plwm mwyaf arwyddocaol Prydain.

Y Rhufeiniaid oedd y bobl gyntaf i ecsbloetio'r ardal gyfoethog yma o ran mwynau, gan echdynnu plwm o wythiennau arwyneb gan ddefnyddio celfi llaw. Roedden nhw'n ffurfio'r mwyn yn ingotau ac yn eu cludo nhw oddi ar yr arfordir yn y Fflint. O'r 13eg ganrif ymlaen, fe barhaodd ffermwyr lleol i weithredu fel hyn ar raddfa fechan, tan yr 17eg ganrif pan oedd y dyddodion arwyneb wedi dod i ben.

Wrth i'r galw am blwm dyfu ac wrth i brisiau mwynau gynyddu, roedd gwell technoleg yn galluogi adeiladu siafftiau dyfnach, ac felly fe ehangwyd yr ymdrechion i fanteisio ar blwm oedd i'w gael mewn gwythiennau dyfnach. Denwyd mwyngloddwyr a pheirianwyr medrus o Ddyfnaint, Cernyw a Swydd Derby i'r ardal. Fodd bynnag, wrth i'r mwyngloddwyr fentro'n ddyfnach, roedden nhw'n wynebu llifogydd. Defnyddiwyd y peiriannau stêm a gyflwynwyd yn y 1800au i bwmpio dŵr i'r wyneb, ond roedd cyfyngiadau ar eu gweithrediadau.

Fe wnaeth eu hagosrwydd at y môr achub y mwyngloddiau, gan ganiatáu ar gyfer adeiladu twneli draenio dwfn. Fe wnaeth Twnnel Helygain, a yrrwyd o'r Fflint yn 1875, newid y gêm, gan ddraenio'r mwyngloddiau'n gyflymach a galluogi llawer i ailagor.

Fe ddaeth cwmnïau mwyngloddio uchelgeisiol at ei gilydd yn ddiweddarach i ddod o hyd i ateb clir i ddraenio'r mwyngloddiau. Ac felly fe roddwyd cychwyn i waith peirianneg rhyfeddol; Twnnel Milwr, a adeiladwyd yn 1897, yn ymestyn dros 10 milltir o lefel y môr ym Magillt i Loggerheads i'r gorllewin o'r Wyddgrug. Llwyddodd i ddraenio'r rhwydwaith dwfn o wythiennau, gan ganiatáu i'r cloddio barhau hyd yn oed yn ystod y cwymp ym mhris plwm.

Cyrhaeddodd y cynhyrchiant ei anterth yn y 1930au, gan dorri recordiau twnelu a phrosesu 21,000 tunnell o fwyn plwm, a gwneud Mynydd Helygain yn brif gynhyrchydd plwm Prydain. Fodd bynnag, fe welwyd mewnforion plwm rhad yn cael effaith yn y pen draw, a chaeodd y mwynglawdd olaf yn 1987, gan ddod â bron i 2000 o flynyddoedd o fwyngloddio ar Fynydd Helygain i ben. Fe ddatgelodd archwiliadau arbennig weddillion yn y twneli yma, gan gynnwys lamp ffagl nafftha, casgenni dŵr a berfa bren, a hyd yn oed peiriannau ac offer pympiau dŵr, winshis llaw a thraciau loco, capsiwl amser real o lafur y mwyngloddwyr.

Mae Mwyngloddiau Plwm Helygain yn atgof ingol o oes a fu, yn dyst i ddyfalbarhad dynol a gwaddol parhaus mwyngloddio yng ngogledd Cymru.

# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

*Ewch yn eich blaen ar hyd y llwybr glaswellt yn raddol i lawr allt. Cyn i chi gyrraedd dau bwll o boptu'r llwybr gyda lympiau a bympiau hen domen fwyngloddio o'ch blaen, chwaraewch glip sain 8.*

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# Llwybr Sain Comin Mynydd Helygain

## 8. Adleisiau o dreftadaeth ddiwydiannol

Ar ôl i'r mwyngloddiau olaf gau ar ddiwedd yr 80au, cafodd yr offer ei ddatgymalu, gan gynnwys y siediau weindio, y melinau siafft a'r prif fframiau. Allwch chi weld, yn y pellter ac ar y chwith i chi, domen hen siafft mwynglawdd gyda chap arni? Mae'r dirwedd yn wasgaredig o hyd gyda cheudyllau siafft a thwmpathau o hen wastraff mwyngloddio, a gafodd eu creu wrth gloddio'r mwynglawdd. Fe gafodd llawer o'r siafftiau eu selio gyda chapiau siâp 'cwch gwenyn' carreg a choncrit, y byddwch chi'n sylwi arnyn nhw hefyd efallai, wrth archwilio'r comin.

Roedd y mwyngloddwyr yn trin llif y dŵr arwyneb drwy greu ffrydiau a sianelau i gyfeirio'r dŵr i olwynion melin, cronfeydd dŵr bach, a phyllau dal ar gyfer golchi plwm. Fe wnaeth y lleoliadau golchi plwm yma adael darnau garw a llygredig o lystyfiant prin. Ychydig o bethau sy'n gallu tyfu yma heblaw am blanhigion sy'n gallu goddef metel, a chennau a mwsoglau gwydn. Mae'r gwastadeddau agored byr yma'n gartref i rywogaethau prin o blanhigion fel Tywodlys y Gwanwyn, sy'n cael ei adnabod yn lleol fel Plwmlys.

Mae rhai ardaloedd yn parhau i gadw dŵr gan ffurfio pyllau mawr, wedi'u hadfer o'r newydd, ac maen nhw'n darparu cynefin hanfodol ar gyfer rhywogaethau prin o fadfallod dŵr ac infertebrata fel gweision y neidr a mursennod. Fe ddaethon nhw dan fygythiad gan gorchwyn Seland Newydd, rhywogaeth estron ymledol sy'n cael y gorau ar fflora brodorol pyllau ac sy'n rhwystro madfallod dŵr rhag magu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gael gwared ar y planhigyn ymledol yma, gan greu cynefin mwy ffafriol.

Roedd chwareli a mwyngloddiau Mynydd Helygain nid yn unig yn darparu cyflogaeth, ond roedden nhw hefyd yn cefnogi diwydiannau amrywiol oedd yn dibynnu ar fwynau oedd yn cael eu hechdynnu, gan gyfrannu at ddatblygiad economaidd Sir y Fflint. Dyma ardal oedd, ar un adeg, yn ganolbwynt llewyrchus i ddiwydiant mawr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys cloddio am lo, gwneud brics, crochendai, tecstilau, adeiladu llongau, gweithfeydd copr a gweithgynhyrchu dur. Heddiw, mae tair chwarel yn weithredol o hyd ar y comin, gan gynhyrchu agregau calchfaen ar gyfer gwaith adeiladu ac asffalt ar draws Gogledd Cymru.

*Wrth y groesffordd, dilynwch y llwybr troellog i fyny'r allt i'r dde. Bydd y llwybr glaswellt llydan yn mynd â chi yn ôl i ddechrau'r llwybr.*

Diolch i chi am ymuno â ni ar lwybr sain Comin Mynydd Helygain a gobeithio eich bod chi wedi mwynhau archwilio'r dreftadaeth gyfoethog, y bywyd gwyllt amrywiol, a'r dirwedd unigryw. O'r haenau o greigiau hynafol o dan eich traed i'r cynefinoedd bywiog sy'n ffynnu uwchben, mae Comin Mynydd Helygain wir yn drysor yng Ngogledd Cymru.